# Cynllun Datblygu Ysgol - Crynodeb 2024/2025

| Hunanwerthuso Ysgol: Trosolwg |
|---|
| Cryfderau:<br>● Mae gan gymuned yr ysgol weledigaeth glir sy'n seiliedig ar y chwech 'C', sy'n cynnwys 'Cymreictod, Cydweithio a Cheisio ein gorau glas'. Mae ethos clós a chynhwysol yr ysgol yn sicrhau bod llais disgyblion yn rhan annatod o fywyd ysgol.<br>● Mae llawer o ddisgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd da ar draws yr ysgol o'u gwaelodlin. Mae ymyraethau cadarn mewn lle i gefnogi disgyblion lle bo angen.<br>● Mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac mae llawer yn ymddwyn yn barchus ac yn cefnogi ei gilydd i ddysgu yn dda.<br>● Ceir ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion i gyfrannu at fywyd ehangach yr ysgol trwy wahanol gynghorau ysgol, clybiau allgyrsiol a chystadlaethau megis yr Eisteddfod a chwaraeon..<br>● Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol.<br>● Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'r medrau cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd eu hangen arnynt i ymgysylltu a rhyngweithio yn yr ystafell ddosbarth gydag athrawon a disgyblion eraill yn llwyddiannus.<br>● Mae llawer o ddisgyblion PYDd yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn unol â'u cyfoedion ac mae'r rhan fwyaf sydd heb wneud y cynnydd disgwyliedig yn derbyn ymyrraeth.<br>● Llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a digidol yn gyson ar draws y cwricwlwm.<br>● Mae gweithdrefnau tracio gyda'r ffocws ar gynnydd i bob disgybl wedi cynllunio ac yn weithredol yn y meysydd Iaith a Llythrennedd a Mathemateg a Rhifedd. System tracio sydd yn unigryw i Ysgol Abercynon ac sydd wedi cynllunio gydag anghenion dysgwyr Abercynon yn ganolig i'r broses.<br>● Athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu amgylchedd dysgu cynhwysol a chynhaliol i ddisgyblion.<br>● Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn datblygu perthynas waith gofalgar a diogel, maent yn annog lles ac agweddau cadarnhaol ymhlith y disgyblion<br>● Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag amrywiaeth eang o asiantaethau allanol i gefnogi pob plentyn a'u teuluoedd.<br>● Mae gweledigaeth Cwricwlwm clir yn ei lle sy'n cyd-fynd yn agos ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru sy'n bersonol i'r ysgol a'r ardal. |

| |
|---|
| ● Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol gyda'r llysgenhadon yn codi ymwybyddiaeth gyson o hawliau plant. Prif neges y llysgenhadon yw bod pawb yn teimlo'n hapus, iach a diogel<br>● Mae strwythur strategol wedi cynllunio a chyfrifoldebau wedi dyrannu i radd addas. Angen parhau i ddyrannu cyfrifoldebau ac adeiladu ar strwythur staffio sydd yn perthyn i bob aelod o staff.<br>● Mae gan y llywodraethwyr presennol ymwybyddiaeth dda o waith yr ysgol ac maent yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol. |
| Meysydd i'w datblygu:<br>● Er gwelliant dros y blynyddoedd diwethaf nid yw ansawdd yr iaith lafar Cymraeg yn ddigon cywir na rhugl gyda defnydd cyfyngedig o eirfa gyfoethog.<br>● Mae'r ysgol wedi cydnabod bod angen gwella cywirdeb ysgrifennu estynedig gan gynnwys y sillafu.<br>● Sicrhau disgwyliadau uchel a chyson gan athrawon i gefnogi a herio disgyblion i gyflawni safonau uchel mewn gweithgareddau ysgogol.<br>● Sicrhau hyder ymysg athrawon yn eu sgiliau dysgu ac addysgu er mwyn sicrhau addysg o'r radd uchaf. Darparu hyfforddiant a chyfleoedd datblygiad proffesiynol eraill i gefnogi athrawon hyderus.<br>● Darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau, yn enwedig rhifedd, yn annibynnol ar draws y cwricwlwm.<br>● System tracio yn weithredol yn dilyn cynllunio clwstwr ac ysgol gyfan. Angen parhau i gynllunio a sefydlu system tracio - Cerrig Croesi ar gyfer pob MDaPh.<br>● Angen parhau i ddyrannu cyfrifoldebau ac adeiladu ar strwythur staffio sydd yn perthyn i bob aelod o staff ac yn sicrhau atebolrwydd. |

| GWERTHUSO CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2023/24 | |
|---|---|
| Blaenoriaeth | Gwerthusiad o'r cynnydd |
| Cwricwlwm i Gymru - Parhau i ddatblygu a mireinio'r cynllunio a'r gweithdrefnau asesu a thracio cynnyd | Athrawon wedi bod yn rhan llawn y broses o gynllunio'r system tracio Iaith a Mathemateg, Cerrig Croesi. Taenlenni nodau diamod Iaith a Maths wedi rhannu gyda'r athrawon. Mae'r athrawon wedi dechrau treialu defnyddio'r system newydd. Mae'r system wedi sefydlu i ffocysu ar ar gynnydd i bob disgybl |
| Dysgu ac Addysgu - Datblygu strategaethau addysgu ymhellach er mwyn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion gydweithio a gwneud penderfyniadau am eu dysgu | Staff addysgu wedi hyfforddi gyda strategaethau Kagan, rhai wedi bod wrthi yn arborfi gyda'r strategaethau ar lawr y dosbarth. Angen parhau i weithio ar strategaethau addysgeg arlawr y dosbarth. |

| | |
|---|---|
| Codi Safonau Llafar | Staff cyfan wedi derbyn hyfforddiant Llafar, syniadau a strategaethau effeithiol i ddefnyddio arlawr y dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Cerrig Croesi Iaith a Llythrennedd wedi sefydlu yn yr ysgol. |
| Arweinyddiaeth - Parhau i ymwreiddio arweinyddiaeth ar bob lefel | Mae'r ysgol wedi cyd-weithio'n agos gyda chlwstwr Garth Olwg ac ychydig gyda chlwstwr Rhydywaun tuag at gyrraedd blaenoraethau clwstwr ac ysgol.<br>Dechreuad cadarn ar benodi strwythur staffio ysgol gyfan. Ffordd Abercynon wedi penodi arraws yr ysgol gyfan ac yn gytun gyda'r clwstwr. |

| **BLAENORIAETHAU CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2024/2025** | | |
|---|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **Camau Gweithredu** | **Cymorth** |
| <u>Mathemateg a Rhifedd</u> - Grymuso pob dysgwr i ddatblygu sgiliau mathemategol cryf a'r gallu i gymhwyso rhifedd mewn amrywiol gyd-destunau bywyd go iawn. | | |
| **Cerrig Milltir Rhagfyr** | **Cerrig Milltir Mawrth** | **Cerrig Milltir Gorffennaf** |
| • Cyflwyno'r cynllun manwl sy'n cynnwys aliniad cwricwlwm, strategaethau cyfarwyddo, dulliau asesu ac adnoddau. Gan gynnwys cynlluniau dosbarthiadau cymysg.<br>• Gwirio effeithiolrwydd a chysondeb cynlluniau Mathemateg tymor canolig. Cynnwys dosbarthiadau cymysg.<br>• Hyfforddiant i staff addysgu newydd - Arweinwyr i gynnal hyffroddiant mewnol i staff addysgu newydd.<br>• Gwirio ac addasu matiau di-amod a Cherrig Croesi i gydfynd gyda chynlluniau Mathemateg. | • Cynllunio a chyflwyno prosiectau rhifedd trawsgwricwlaidd. Prosiectau bywyd 'go iawn' e.e. trefnu trip, casglu arian ar gyfer elusen, coginio pryd o fwyd.<br>• Yn dilyn cyfle i wirio'r cynluniau tymor canolig - addasu ac ail gyflwyno'r cynlluniau.<br>• Cynllunio a wedi sefydlu'n cadarn ardraws yr ysgol gyfan, cyfleoedd rhifedd achlysurol fel rhan o weithgareddau pob dydd. E.e.. ychwanegu graff i ddangos pwy sy'n cael brechdanau / cinio | • Monitro - Craffu llyfrau, siarad a dysgwyr a thaith dysgu gyda ffocws ar Fathemateg.<br>• Diweddaru cynllun gweithredu Mathemateg a Rhifedd yn dilyn canfyddiadau'r digwyddiad hunanarfarnu.<br>• Pythefnos asesu Haf- Defnyddio asesiadau ffurfiannol a chrynodol i nodi anghenion dysgwyr.<br>• Athrawon i ddarparu cyfarwyddyd wedi'i deilwra, gan gynnwys cymorth a her i ddysgwyr.<br>• Cynnal Caffi Mathemateg a Rhifedd gyda rhieni'r ysgol. |

| | | |
|---|---|---|
| ● Monitro - Craffu llyfrau, siarad a dysgwyr a thaith dysgu gyda ffocws ar Fathemateg.<br>● Diweddaru cynllun gweithredu Mathemateg a Rhifedd yn dilyn canfyddiadau'r digwyddiad hunanarfarnu.<br>● Pythefnos asesu Hydref - Defnyddio asesiadau ffurfiannol a chrynodol i nodi anghenion dysgwyr. Athrawon i ddarparu cyfarwyddyd wedi'i deilwra, gan gynnwys cymorth a her i ddysgwyr. | | ● Gwerthuso'r Cynllun Mathemateg a Rhifedd. Profiad hunanarfarnu staff cyfan i werthuso cryfderau a mannau i wella |

<u>Dysgu ac Addysgu</u> - Datblygu a gwreiddio 12 Egwyddor Addysgeg ar draws yr ysgol

| **Cerrig Milltir Rhagfyr** | **Cerrig Milltir Mawrth** | **Cerrig Milltir Gorffennaf** |
|---|---|---|
| ● Pennu gwerthusiad cychwynnol - Cyfle hunan arfarnu, taith ddysgu, craffu llyfrau a siarad a dysgwyr gyda ffocws benodol ar addysgeg.<br>e.e. gwahaniaethu, ysgrifennu MATh, datrys problemau rhif ac adborth sy'n cynnig y camau nesaf.<br>Diweddaru cynllun gweithredu Dysgu ac Addysgu yn dilyn canfyddiadau'r digwyddiad hunanarfarnu.<br>● Swot analysis - addysgeg. Beth yw'r cryfderau a mannau i ddatblygu?<br>Penodi targedau rheoli perfformiad a chynllun hyfforddi yn dilyn y canfyddiadau yma. | ● Staff i ymchwilio i strategaethau addysgeg personol a chyflwyno i weddill y staff.<br>● Staff i arbrofi gyda'r strategaethau ar lawr y dosbarth<br>● Triawdau dysgu - Staff i rannu arfer dda ar lawr y dosbarth.<br>● Rhaglen ddatblygu staff o ansawdd uchel a gweithredu ar hyfforddiant. Ionawr - Dysgu ac a Addysgu Rhagorol - Nick Jones<br>● Yn dilyn cwrs Dysgu ac Addysgu Rhagorol creu rhestr di-amod addysgu i ddilyn ym mhob oedran. | ● Staff i ymchwilio i strategaethau addysgeg personol a chyflwyno i weddill y staff.<br>● Monitro'r ddarpariaeth ar y cyd gyda ffocws ar addysgeg ac ymrwymiad y disgyblion.<br>● Cyfarfod staff cyfan - craffu llyfrau.<br>● Monitro - taith ddysgu, craffu llyfrau a siarad a dysgwyr gyda ffocws benodol ar addysgeg ac argymhellion profiad hunanarfarnu Tymor yr Hydref.<br>● Diweddaru cynllun gweithredu Dysgu ac Addysgu yn dilyn canfyddiadau'r digwyddiad hunanarfarnu. |

| | | |
|---|---|---|
| • Staff i ymchwilio i strategaethau addysgeg personol a chyflwyno i weddill y staff.<br>• Rhaglen ddatblygu staff o ansawdd uchel a gweithredu ar hyfforddiant. Hydref - Tric a chlic - Cam 1 cynorthwywyr | | |
| Cwricwlwm i Gymru - Mireinio gweithdrefnau asesu a thracio'r ysgol gyfan | | |
| **Cerrig Milltir Rhagfyr** | **Cerrig Milltir Mawrth** | **Cerrig Milltir Gorffennaf** |
| • Sefydlu arweinydd Newydd y CiG, arweinydd gref i ddilyn yr ysgol.<br>• Arweinwyr Meysydd Dysgu a Phrofiad i greu cynllun gweithredu yn dilyn monitro yn nhymor yr Hydref 2024<br>• Rhannu cynlluniau tymor hir am bob maes a chyflwyno i staff gan gynnwys staff newydd.<br>• Cydweithio gydag ysgolion eraill o fewn a thu allan i'r clwstwr i pennu nodweddion di-amod ar gyfer 3 maes dysgu ar gyfer pob blwyddyn - sef Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Celfyddydau Mynegiannol a Dyniaethau.<br>• Hyfforddiant i'r staff ar ein dulliau asesu - matiau di-amod a Cherrig Croesi.<br>• Cynnal wythnosau asesu (Hydref) a chyfarfodydd cynnydd tymhorol. | • Cydweithio gydag ysgolion eraill o fewn a thu allan i'r clwstwr i pennu nodweddion di-amod ar gyfer 3 maes dysgu ar gyfer pob blwyddyn - sef Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Celfyddydau Mynegiannol a Dyniaethau.<br>• Cyfarfodydd Cynnydd - cyfle i drafod grwpiau ymyrraeth, dysgwyr ADY a grwpiau herio.<br>• Trosi nodweddion di-amod cytun i daelenni Cerrig Croesi, dechrau treali asesu dysgwyr gyda'r Cerrig Croesi pob FDaPh. | • Cydweithio gydag ysgolion eraill o fewn a thu allan i'r clwstwr i pennu nodweddion di-amod ar gyfer 3 maes dysgu ar gyfer pob blwyddyn - sef Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Celfyddydau Mynegiannol a Dyniaethau.<br>• Cynnal wythnosau asesu (Haf) a chyfarfodydd cynnydd tymhorol.<br>• Cyflwyno ein gweithdrefnau asesu a thracio cynnydd newydd i rieni a llywodraethwyr |
| Datblygu arweinyddiaeth yr ysgol - Mireinio systemau er mwyn datblygu rolau arweinyddiaeth ardraws yr ysgol, cynyddu atebolrwydd a pherchnogaeth. | | |

| **Cerrig Milltir Rhagfyr** | **Cerrig Milltir Mawrth** | **Cerrig Milltir Gorffennaf** |
|---|---|---|
| ● Cydweithio gydag ysgolion eraill o fewn y clwstwr a thu hwnt. HMS Clwstwr - 25.10.24<br>● Arweinwyr targedau CGY i ysgrifennu adroddiadau effaith ar ddiwedd pob tymor.<br>● Creu strwythur staffio penodol yn dilyn penodi aelodau newydd i'r UDA gan gynnwys Pennaeth.<br>● Gosod disgwyliadau a rolau penodol ar gyfer holl staff yr ysgol<br>● Defyddio map monitro a grewyd i rannu cyfrifoldebau monitro yn dymhorol dros gyfnod blwyddyn ysgol.<br>● UDA i ysgrifennu adroddiadau i staff a llywodraethwyr yn dilyn gweithredoedd gwella ysgol - Cyfarfod pwyllgor Safonau Cwricwlwm Llywodraethwyr 12.11.24<br>● UDA i ysgrifennu adroddiad effaith sydd yn adfyrfiol ac yn cynnig y camau nesaf yn y broses o wella ysgol.<br>● Gosod cyfrifoldebau yn dymhorol i aelodau'r UDA. Mis yma Mis Nesaf yn dilyn y map monitro - gweithredoedd UDA | ● Cydweithio gydag ysgolion eraill o fewn y clwstwr a thu hwnt.<br>● UDA i ysgrifennu adroddiad effaith sydd yn adfyrfiol ac yn cynnig y camau nesaf yn y broses o wella ysgol.<br>● Llywodraethwyr cyswllt yn cymryd rhan weithiol fel cyfaill beirniadolmewn teithiau dysgu a monitro tystiolaeth<br>● Gosod cyfrifoldebau yn dymhorol i aelodau'r UDA. Mis yma Mis Nesaf yn dilyn y map monitro - gweithredoedd UDA | ● Cydweithio gydag ysgolion eraill o fewn y clwstwr a thu hwnt.<br>● Defyddio map monitro a<br>● grewyd i rannu cyfrifoldebau<br>● monitro yn dymhorol dros<br>● gyfnod blwyddyn ysgol.<br>● UDA i ysgrifennu adroddiad effaith sydd yn adfyrfiol ac yn cynnig y camau nesaf yn y broses o wella ysgol.<br>● Llywodraethwyr cyswllt yn cymryd rhan weithiol fel cyfaill beirniadolmewn teithiau dysgu a monitro tystiolaeth<br>● Gosod cyfrifoldebau yn dymhorol i aelodau'r UDA. Mis yma Mis Nesaf yn dilyn y map monitro - gweithredoedd UDA<br>● UDA a staff cyfan i gymryd rhan llawn yn y broses o hunarfarnu a gosod y camau nesaf ar gyfer CGY 25/26. |